

Adroddiad Ôl Ymgynghori

Dorchester Avenue a Winchester Avenue – Cau Ffyrdd

Rhif project: CO16191

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 15^{fed} Rhagfyr 2016 - 29^{ain} Rhagfyr 2016, ond oherwydd bod yr ymgynghoriad hwn wedi digwydd dros gyfnod y Nadolig, cynhwyswyd unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd ychydig wythnosau ar ôl y dyddiad cau hwn fel rhan o'r adroddiad presennol.

Diben yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun ac ymdrin ag unrhyw bryderon lleol os yn bosibl.

O'r 260 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 8 hysbysiad safle a ddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 59 o ymatebion unigol; crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- 9 Yn cefnogi'r cynnig
- 1 Sylwadau / awgrymiadau ar y cynigion
- 49 Anghytuno â'r cynnig (nododd rai sylwadau ychwanegol)

Mae'r ffigyrau uchod yn rhannu fel a ganlyn:

Dorchester Avenue – 5 o blaid ac 1 yn erbyn

Winchester Avenue – 2 o blaid a 3 yn erbyn

Strydoedd Eraill / Heb Ddatgelu – 1 o blaid a 34 yn erbyn

O ran y ffigyrau uchod, mae'n werth nodi nad oedd peth o'r adborth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn cynnwys unrhyw fanylion am eu cyfeiriadau. O'r herwydd, cafodd y rhain eu grwpio o dan "Strydoedd Eraill/ Heb Ddatgelu". Er bod y ffigyrau yn dangos mwyafrif sylweddol yn erbyn y cynnig, gallai hynny fod oherwydd nad oedd y bobl a oedd o blaid y cynnig yn teimlo fod angen iddynt ysgrifennu i mewn i gefnogi'r cynllun.

Hefyd daeth deiseb i law ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys tua 200 o lofnodion o 130 eiddo gwahanol. Teitl y ddeiseb oedd:

“RYDYM NI SYDD WEDI LLOFNODI ISOD YN NODI BOD CYNGOR SIR CAERDYDD YN BWRIADU CAU DORCHESTER A WINCHESTER AVENUE YN EU CYFFORDD Â PHEN-Y-LAN ROAD. BYDD CAU YN CYNNWYS LLINELLAU MELYN DWBL A BOLARDIAU CONCRID AC O BOSIBL CYRBAU AR BOB CYFFORDD.

GOLYGA HYN Y BYDD YR HOLL DRAFFIG SYDD AR HYN O BRYD YN DEFNYDDIO DORCHESTER AVENUE AR GYFER MYNEDIAD I'R HOLL FFYRDD CYFAGOS YN CYNNWYS:

WATERLOO ROAD, EDWARD NICHOLL COURT, FERNY COURT, SOUTHCOURT ROAD, EARLS COURT ROAD, BARONS COURT ROAD, HAMPTON COURT ROAD,

RAVENSCOURT CLOSE A TURNHAM GREEN YN CAEL MYNEDIAD DRWY COLCHESTER AVENUE A WATERLOO ROAD YN UNIG.

FEL TRIGOLION LLEOL, RYDYM EISOES YN YMWHYBODOL O FAINT Y TRAFFIG SY'N DEFNYDDIO COLCHESTER AVENUE AR HYN O BRYD, YN ENWEDIG YN YSTOD AWR FRIG Y LLIF TRAFFIG. BYDD HYN YN CYNHYDDU PAN FO'R YSGOL GYNRADD NEWYDD A'R DATBLYGIADAU TAI NEWYDD ARFAETHEDIG ERAILL WEDI'U CWBLHAU.

TRWY FWRIAD NEU DWYLL, MAE'R UNIG HYSBYSIADAU AM Y CYNIGION LLYM HYN YNGHLWM WRTH BOLION LAMP YN DORCHESTER AVE A WINCHESTER AVENUE YN UNIG.

RYDYM NI, SYDD WEDI LLOFNODI ISOD, YN GWRTHWYNEBU'N GRYF IAWN Y CYNIG HWN AM Y RHESYMAU BLAENOROL, A GOFYNNWN I'R AWDURDOD PRIFFYRDD AILYSTYRIED Y CYNIG HWN NA FYDD OND YN GWAETHYGU PROBLEMAU TRAFFIG PRESENNOL YR ARDAL HON. RHAI'D I FARN TRIGOLION YR HOLL STRYDOEDD A NODWYD UCHOD GAEL EI CHYDBWYSO Â BARN Y RHEINY YN DORCHESTER AVE A WINCHESTER AVE SYDD YN ÔL POB TEBYG WEDI RHOI CYCHWYN AR Y CYNIG HWN. RYDYM HEFYD YN CWESTIYNU P'UN A YW'R AWDURDOD PRIFFYRDD WEDI YMGYMRYD AG UNRHYW AROLYGON MESUR TRAFFIG I GYFIAWNHAU'R CYNIGION HYN."

Argymhelliad

Yn wyneb yr isod, cynigir **peidio** â bwrw ymlaen â'r cynnig i gau Dorchester Avenue a Winchester Avenue yn eu cyffyrdd â Heol Pen-y-lan drwy ddefnyddio bolardiau.

Ers i ni geisio barn y trigolion a'r gymuned fel rhan o ymarfer ymgynghori'r cynllun, daeth cyllid amgen ar gael y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno mesurau diogelwch ffyrdd amgen o amgylch cyffyrdd Dorchester Avenue a Winchester Avenue. Byddai'r rhain yn lle'r cau ffyrdd arfaethedig.

Mae'r cyllid adran 106 sydd wedi dod ar gael o ganlyniad i ddatblygiad o fewn yr ardal a chytundeb cyfreithiol rhwng yr awdurdod lleol a'r datblygwr. Fel arfer, mae'r rhain yn cael eu priodoli i amodau caniatâd cynllunio, lle mae'r Cyngor yn derbyn cyllid i weithredu gwelliannau neu fesurau lliniaru.

O ystyried y cyllid ychwanegol hwn, bydd cynllun yn awr yn cael ei ddylunio i gyflwyno mesurau megis rhwystrau ymwithiol a chyffyrdd ar fwrdd arafu o gwmpas Dorchester Avenue a Winchester Avenue er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd yn y lleoliadau hyn. Symudir y cynllun newydd arfaethedig hwn ymlaen drwy'r broses ymgynghori Projectau Trafnidiaeth safonol maes o law.

Ceir crynodeb o'r pryderon a'r sylwadau isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Dangosir sampl o'r sylwadau a ddaeth i law mewn llythrennau italig o dan bob is-bennawd

Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr a hefyd ni ddylai fod wedi digwydd dros gyfnod y Nadolig

“Mae hwn yn gyfnod ymgynghori hynod fyr o ystyried gwyliau'r Nadolig, a ellir ei ymestyn? A pham nad yw trigolion ym Melrose Avenue neu unrhyw un o'r rhodfeydd is na'r pwynt hwnnw wedi derbyn hysbysiadau ymgynghori? A ellir dosbarthu hysbysiadau i bob rhodfa islaw'r rhai a enwir uchod a fydd yn anochel yn teimlo effeithiau'r cynigion hyn?”

“Yr wyf yn amau p'un a yw amseriad y cynnig hwn yn gam tactegol gan mai DIM OND 9 DIWRNOD GWAITH a gawsom i ymateb yn ystod y cyfnod Nadolig pan mae teuluoedd yn brysur, gallai eraill fod i ffwrdd ar wyliau ac efallai na chafodd y llythyr cynnig y sylw angenrheidiol yn syth oherwydd iddo gyrraedd mewn llawer o achosion ymysg mynydd o gardiau Nadolig.”

“Yn olaf o ystyried amseriad yr hysbysiad, yr adeg o'r flwyddyn pan mae pobl yn brysur iawn a bod dwy Wyl y Banc, nid yw caniatáu pythefnos ar gyfer sylwadau yn ymddangos yn ddigon o amser i bobl allu ymateb.”

Nodir bod y cyfnod ymgynghori o bythefnos yn arfer safonol gyda'n hymgyngoriadau cyhoeddus i Broiectau Trafnidiaeth. Fodd bynnag, er bod y ddogfen ymgynghori yn nodi dyddiad cau o 29^{ain} Rhagfyr, 2016, yr oeddem yn derbyn adborth i'r ymgynghoriad tan ddydd Gwener 6^{ed} Ionawr, 2017 oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi fod yr ymgynghoriad hwn wedi ei gychwyn dros gyfnod y Nadolig.

Dylai'r ymgynghoriad fod wedi cael ei gynnal dros ardal ehangach

“O sgysiau yn yr ardal, mae'n ymddangos nad yw eich llythyr wedi cael ei ddosbarthu'n eang. Er enghraifft, yr wyf wedi siarad â thrigolion ym Melrose Ave, Earls Court, Kimberly ayb., y byddai'r cyfan ohonynt yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn, ond nid oeddynt wedi derbyn eich llythyr. A ellwch chi gywiro hyn os gwelwch yn dda?”

“NI WNAETH trigolion Melrose, a fyddai'n ddi-os yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y maint cynyddol o draffig, dderbyn copi o'r cynnig. A allech egluro os gwelwch yn dda beth yw'r rheswm dros hyn?”

Mae'n arfer safonol y Cyngor i bob eiddo o fewn 100 medr o gynllun Projectau Trafnidiaeth arfaethedig dderbyn llythyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun arfaethedig. Fodd bynnag, mae hefyd werth nodi ar yr achlysur hwn bod yr ardal yr ymgynghorwyd â hi wedi ei hymestyn i gynnwys mwy o eiddo o strydoedd cyfagos. Nid yw'n bosibl ymgynghori â phob eiddo yn yr ardal, ac felly mae'n anochel na fydd bob eiddo yn derbyn llythyr fel rhan o'r ymgynghoriad. Hefyd gosodwyd hysbysiadau safle ar y safle yn yr ardal yr effeithir arni a

oedd yn rhoi manylion y cynnig a hefyd dolen i wefan y Cyngor lle gallai'r cyhoedd weld gwybodaeth ychwanegol am y cynllun.

Canfu Ymchwiliadau Projectau Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd 2015, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, sy'n cyfeirio at oryrru a thraffig ar Dorchester Avenue, yn erbyn y rhain: "Datgelodd asesiad o gronfa ddata damweiniau ffyrdd yr heddlu na fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anafiadau yn y lleoliad hwn dros gyfnod o bum mlynedd. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ostegu traffig ar hyn o bryd. Ychwanegwyd y lleoliad at 'Ardaloedd o Bryder' ar gyfer ei adolygu yn y dyfodol."

"Datgelodd asesiad o gronfa ddata damweiniau ffyrdd yr heddlu na fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anafiadau yn y lleoliad hwn dros gyfnod o bum mlynedd. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ostegu traffig ar hyn o bryd. Ychwanegwyd y lleoliad at 'Ardaloedd o Bryder' ar gyfer ei adolygu yn y dyfodol."

"Yn ôl Ymchwiliadau Projectau Traffig y Cyngor 2015 (Cyf 63240) nodwyd "pryderon goryrru" yn Dorchester Avenue. Fodd bynnag aiff yr adroddiad ymlaen i ddweud "na fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anafiadau yn y lleoliad hwn dros gyfnod o bum mlynedd" ac "nad oes unrhyw gyfiawnhad dros ostegu traffig ar hyn o bryd." Yn ôl adroddiad y Cyngor ei hun, nid oes felly unrhyw sail dros gyflwyno'r cynigion presennol."

Yng nghyswllt dogfen "Ymchwiliadau Projectau Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd 2015" nodir "Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ostegu traffig ar hyn o bryd. Ychwanegwyd y lleoliad at 'Ardaloedd o Bryder' ar gyfer ei adolygu yn y dyfodol." I ddiben eglurder, mae hyn yn ymwneud â nodweddion Gostegu Traffig fel twmpathau cyflymder a mesurau ffisegol eraill. Mae'n nodi bod yn lleoliad hwn yn "Ardal o Bryder". Ychwanegir lleoliadau at y rhestr "Ardaloedd o Bryder" pan dderbynnir ymholiadau cyson am leoliad penodol dros gyfnod o amser. Mae'r materion a nodir o bwys ond nid ydynt yn flaenoriaeth ddigon uchel i warantu cael eu cyflwyno am arian cyfalaf penodol gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru. Nodir yr Ardaloedd o Bryder hyn ar ein cronfa ddata, ac ymdrinnir â hwy os daw cyfle ariannol, fel cyfle yn sgil datblygiad cyfagos neu broject trafndiaeth strategol gerllaw.

Er gwybodaeth, mae'r cynllun bolardiau yn gynllun cost isel, ac felly oherwydd bod cyllid ar gael i'r lleoliad hwn, symudwyd y cynnig ar gyfer y lleoliad yn ei flaen.

Ble mae'r dystiolaeth i gefnogi'r cynnig?

“Rhaid i gynnig fel hwn gael ei gefnogi gan rywfaint o dystiolaeth ystadegol - nifer y ceir, damweiniau, cyrchfan a phwrpas y daith, tystiolaeth o oryrru ayb. A allwch chi gylchredeg y dystiolaeth hon CYN dyddiad cau'r ymgynghoriad?”

“Sut all y cyngor benderfynu gwneud hyn, lle mae'r dystiolaeth? Nid oes unrhyw arolwg traffig i gyfiawnhau'r project hwn.”

“Nodaf eich bod yn ysgrifennu y gwnaed asesiad llawn o ddefnydd ffyrdd. Nodaf hefyd eich bod wedi canfod nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos damweiniau yn Winchester Avenue yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.”

“Pam wnaed y penderfyniad i osod rhwystrau ar ddau ben y ffyrdd? Pwy fydd yn elwa ar y cynigion hyn ar wahân i'r ychydig breswylwyr sy'n byw ym mhen Pen-y-lan Road o'r ffyrdd hyn? Pa dystiolaeth ystadegol sydd ar gael i gyfiawnhau bod angen gwirioneddol am y cynigion brysiog a sydyn iawn hyn?”

“Diffyg tystiolaeth, dim arolwg traffig i gyfiawnhau'r project hwn.”

“1. Y diffyg tystiolaeth a gyflwynwyd i breswylwyr

Mae Disgrifiad o'r Cynllun Arfaethedig yn nodi y cynhaliwyd arolwg trafndiaeth. Rydym yn pryderu bod y cynnig yn ddiffygiol o ran gwybodaeth a data penodol. Credwn y dylai'r wybodaeth a gasglwyd gael ei rhannu gyda'r trigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun hwn. Felly, rhowch y wybodaeth ganlynol i ni, os gwelwch yn dda:

- *pryd y cynhaliwyd yr arolwg*
- *dros ba gyfnod y gwnaed yr ymchwiliad*
- *y data a gasglwyd ynghylch cyflymder, llif y traffig a damweiniau”*

“Diffyg tystiolaeth, dim arolwg traffig i gyfiawnhau'r project hwn.”

Cynhaliwyd Ymchwiliad Trafndiaeth tua diwedd 2014, pryd y cynhaliwyd amrywiaeth o arolygon dros nifer o wythnosau; roedd yr arolygon hyn yn cynnwys arolygon cyflymder a llif traffig. Yna cynhyrwyd Adroddiad Ymchwiliad Trafndiaeth a oedd wedyn yn casglu'r holl wybodaeth hon ynghyd a gwnaed argymhellion yn yr adroddiad a fyddai wedi cael eu trafod gyda'r Aelodau Ward Lleol ar y pryd.

Y cyflymder 85 canradd uchaf a gofnodwyd yn ystod yr arolygon hyn oedd 27mya a gofnodwyd rhwng 14:30 a 15:30 ar ddiwrnod ganol wythnos. Gellir diffinio 85 canradd fel “y cyflymder hwnnw yr arsylwir bod 85 y cant o holl gerbydau yn teithio arno, neu oddi tano, o dan amodau llif rhwydd heibio pwynt monitro.”

Roedd arolygon Llif Traffig i Dorchester Avenue fel a ganlyn:

Llif cyfartalog awr frig AM ganol yr wythnos

Dwyrain i'r Gorllewin (Pen-y-lan Road i Waterloo Road) 24 cerbyd yr awr

Gorllewin i'r Dwyrain (Waterloo Road i Ben-y-lan Road) 39 cerbyd yr awr

Llif cyfartalog awr frig PM canol yr wythnos

Dwyrain i'r Gorllewin (Pen-y-lan Road i Waterloo Road) 102 cerbyd yr awr
Gorllewin i'r Dwyrain (Waterloo Road i Ben-y-lan Road) 59 cerbyd yr awr

Mae'n werth nodi nad yw hwn yn gynllun "ymatebol" oherwydd problem diogelwch ffyrdd. Yn hytrach, mae'n gynllun a fwriadwyd i'w wneud yn haws i gerddwyr (yn enwedig defnyddwyr sy'n agored i niwed fel plant, yr anabl a'r henoed) gael mynediad at y cyfleusterau cymunedol lleol. Mae'n arbennig o berthnasol i gynorthwyo teithio cynaliadwy gan blant a rhieni/ gwarcheidwaid i ac o'r ysgolion cyfagos.

Colchester Avenue, nad yw'n gallu ymdopi â maint y traffig ar hyn o bryd

"Mae'r rhan o Colchester Avenue sy'n rhedeg yn gyfochrog â Dorchester Avenue a Winchester Avenue eisoes yn ffordd brysur sy'n dioddef o dagfeydd. Mae'r ciwiau traffig rhwng y goleuadau traffig ar Colchester Avenue/Pen-y-lan Road a Colchester Avenue/Waterloo Road eisoes yn sylweddol, yn enwedig ar amseroedd brig ysgol/gwaith, pryd y gallant ymestyn yn hwy na'r pellter rhwng y ddwy set o oleuadau."

"Mae tagfeydd traffig a llygredd yn ddigon drwg ar Ben-y-lan Road fel y mae, bydd gosod rhwystrau ar Dorchester Avenue a Winchester Avenue yn achosi hyd yn oed mwy o dagfeydd i Colchester Avenue, Kimberly Road, Melrose Avenue, Marlborough Road, Welfield Road ac Albany Road."

"Rwy'n byw ar Colchester Avenue a byddai'r cynlluniau hyn yn creu sefyllfa draffig i ni sydd hyd yn oed yn waeth na'r hyn sy'n bodoli eisoes. Ar yr adegau prysuraf, mae traffig cyffordd Waterloo Road yn mynd yn ôl yr holl ffordd i Heol Casnewydd; mae hyn yn creu maint anhygoel o draffig llonydd."

"Bydd y cynllun arfaethedig yn anochel yn cynyddu traffig ar ffyrdd cyfagos, yn enwedig Colchester Avenue sydd eisoes â thraffig trwm. Bydd trigolion ffyrdd lleol eraill yn talu'r pris am lai o draffig ar Winchester Avenue a Dorchester Avenue. Eisoes mae'n eithriadol o anodd croesi Colchester Avenue yn ystod oriau brig. Bydd hyn yn cael ei waethygu gan y cynllun hwn."

"Byddai'n achosi mwy o dagfeydd nag sy'n bodoli eisoes ar y gyffordd signalau traffig a reolir yn Colchester Avenue a Pen-y-lan Road."

Fel rhan o'r cynllun arfaethedig, ystyriwyd y cynnydd posibl mewn lefelau llif traffig i gyffordd Colchester Avenue a Pen-y-lan Road. Cytunwyd na fyddai hyn yn golygu newid sylweddol i'r lefelau llif traffig presennol. Fel rhan o'r broses fonitro ar gyfer hyn, byddai wedi bod yn ofynnol cysylltu â thîm Telemateg Cyngor Caerdydd er mwyn trafod yr opsiwn o newid yr amseriadau ar y signalau traffig presennol i helpu i leddfu peth o'r llif traffig cynyddol posibl drwy'r gyffordd hon.

A ellir defnyddio mesurau amgen megis twmpathau cyflymder yn hytrach na chau'r ffordd yn ffurfiol?

“Ni ddylai Priffyrdd rwystro pob car o'r ffyrdd hyn; dylent ystyried lleihau llif y lorïau a faniau sy'n defnyddio'r ffyrdd hyn i gael mynediad. Yn hytrach na chau'r ffyrdd hyn, efallai y byddai'n werth edrych yn hytrach ar roi twmpathau cyflymder arnynt, er mwyn osgoi defnyddio'r ffordd neu wneud iddynt arafu wrth ddefnyddio'r ffordd.”

Paratowyd Adroddiad Ymchwiliad Trafnidiaeth yn y lleoliad hwn eisoes, a nododd nifer o opsiynau i wella diogelwch ar y ffyrdd ar Dorchester Avenue a Winchester Avenue. Roedd mesurau gostegu traffig fel twmpathau cyflymder yn ystyriaeth yn yr adroddiad hwn; fodd bynnag, mae costau gweithredu'r cynllun gostegu traffig yn sylweddol fwy na chyflwyno cau ffyrdd. Bydd Dorchester Avenue a Winchester Avenue yn parhau i fod ar y rhestr "Ardaloedd o Bryder" a phetai cyllid yn dod ar gael yn y dyfodol, gall mesurau gostegu traffig fel twmpathau cyflymder fod yn ystyriaeth yn y lleoliad hwn.

Dylid gwario'r arian ar gyfleuster croesfan a reolir i gyffordd Colchester Avenue a Pen-y-lan Road

“Rwy'n credu y gallai arian traffig gael ei wario'n llawer iawn gwell yn yr ardal trwy ddarparu CYFLEUSTERAU CROESI DIOGEL o amgylch ardal cyffordd Colchester Ave / Pen-y-lan Hill. Rydym wedi byw yma ers dros 24 blynedd a chrybwyllwyd hyn sawl tro, ond cafodd ei anwybyddu bob tro. Mae yna hen bobl, plant, arosfannau bws a dim amser cwbl ddiogel i groesi ffordd sy'n brysur iawn (drwy'r dydd) – mae hyn yn llawer pwysicach na bod nifer fechan o eiddo preswyl yn anfodlon bod eu Mynediad yn Unig yn cael ei anwybyddu ar adegau prysur o'r dydd.”

“Os mai diogelwch ar y ffyrdd yw'r gwir bryder, byddem yn awgrymu y byddai'n well gwario'r arian ar Groesfan briodol i Gerddwyr ym mhen Pen-y-lan Road o Colchester Avenue.”

“Rwy'n credu y byddai'n well gwario'r arian a neilltuwyd ar gyfer cau Dorchester Ave a Winchester Ave trwy ddarparu croesfannau dyn gwyrdd sydd wirioneddol eu hangen ar gyffyrdd Colchester Ave a Pen-y-lan Road. Dyma'r llwybr y mae plant ysgol yn ei gymryd i'r ysgol ac nid oes toriad yn y traffig ac felly nid oes amser i groesi'r ffordd yn ddiogel. Rwy'n ei chael hi'n anodd deall bod y cynghorau yn dymuno cau dwy stryd er mwyn rhoi budd i ychydig o breswylwyr pan fyddai dwy groesfan dyn gwyrdd o fudd i'r cyfan o Ben-y-lan.”

“Yn olaf, yn y cyfnod cyfyng hwn, yr wyf yn ei chael yn anodd credu y gall gwario arian ar newidiadau a fydd o fudd i gyn lleied o bobl fod yn flaenoriaeth. Os oes unrhyw gyllid dros ben yng nghyllideb yr adran drafnidiaeth, efallai y byddai cyfleuster croesfan i gerddwyr ar draws Pen-y-lan Hill o'r arhosfan bws ar y ffordd mas ychydig i'r gogledd o Colchester Avenue yn fwy buddiol.”

Mae Projectau Trafnidiaeth wedi ymchwilio i faterion Diogelwch ar y Ffyrdd ledled Caerdydd trwy gynnal cyfres o Astudiaethau Ardal. Ystyriodd yr ymchwiliadau faterion newydd a godwyd gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd, ynghyd â phroblemau a meysydd sy'n peri pryder ar hyn o bryd. Roedd yr ymchwiliad cynhwysfawr o faterion diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd yn cynnwys gwerthusiad o arolygon yr heddlu a oedd yn cofnodi digwyddiadau

cysylltiedig ag anafiadau, arolygon traffig a cherddwyr, datblygiadau arfaethedig a data perthnasol arall.

Gallaf gynghori bod pryderon blaenorol wedi eu mynegi am y lleoliad hwn a bod cynllun "Cyfleusterau Croesfan i Gerddwyr" ar y rhestr waith i'r dyfodol i gyffordd Colchester Avenue a Pen-y-lan Road. Fodd bynnag, gan fod hyn yn amodol ar i gyllid ddod ar gael, ni allwn roi amserlen pryd y gall y cynllun hwn fynd yn ei flaen.

Amser Teithio Cynyddol Hirach

"Os yw'r cynigion uchod yn mynd yn eu blaenau, hoffwn nodi y bydd pawb sy'n byw neu'n ymweld neu'n danfon nwyddau i gyfeiriadau ar y ddwy ffordd hyn hefyd yn cael mynediad at Ben-y-lan Hill drwy lwybr Colchester Avenue i mewn ac allan o'u heiddo. Er efallai na fyddai hyn yn peri pryder mawr i drigolion, bydd yn bendant yn effeithio ar ein rhan ni o Colchester Avenue yn eithaf sylweddol - eisoes mae maint y traffig yma yn uchel iawn (gall gymryd 5 munud ddim ond i gael allan i'r llif traffig ar adegau prysur), a dim ond gwaethygu pethau y gall hyn ei wneud. Mae Winchester Avenue a Dorchester Avenue yn dawel yn ystod y dydd."

"Yr wyf eisoes yn cael trafferthion mawr i gyrraedd adref oherwydd tagfeydd ar Colchester Avenue. Bydd cau'r ffyrdd uchod yn arwain at oedi hyd yn oed hirach. Eisoes mae problemau parcio ar Colchester Avenue bydd y broblem hon yn cael ei gwaethygu deg gwaith drosodd os caiff y ffyrdd uchod eu cau."

Fel rhan o'r cynnig hwn, byddai gyrwyr sy'n cael mynediad i Dorchester Avenue a Winchester Avenue o Ben-y-lan Road yn wynebu amseroedd teithio hirach, ac ystyriwyd hyn fel rhan o'r cynnig hwn, er y byddai gyrwyr sydd ar hyn o bryd yn torri'r Gorchymyn Traffig "mynediad yn unig" ac yn defnyddio'r ddwy ffordd fel "ffordd fer" yn cael eu hatal yn ffisegol rhag defnyddio llwybr hwn.

Mwy o Lygredd ar hyd Pen-y-lan Road a Colchester Avenue

"Gan fy mod yn byw nesaf at dramwyfa brysur, yr wyf yn ymwybodol iawn o hyn ac yn enwedig y lefelau llygredd gwirioneddol pan fyddwch yn camu allan i'r stryd."

"Bydd y llwybr amgen amlwg o Ben-y-lan Road yn cynnwys Colchester Avenue; i bob pwrpas y cynnig yw dargyfeirio'r llygredd traffig o Dorchester Avenue a Winchester Avenue ac ychwanegu at y traffig gormodol sydd eisoes yn mynd heibio fy nhŷ."

O ran llygredd, ni wnaed Asesiad Amgylcheddol gan nad yw'r cynllun yr ydym yn ei ddatblygu angen caniatâd cynllunio. Dylid nodi na fydd y cynllun yn creu symudiadau traffig ychwanegol sylweddol, ac o ganlyniad mae'n annhebygol y bydd y cynigion cynllun yn effeithio'n sylweddol ar grynodiadau prif lygryddion yn y lleoliad hwn, fodd bynnag, byddwn yn trafod y lleoliad hwn gyda swyddogion lechyd yr Amgylchedd i asesu p'un a oes angen monitro penodol.

Oedi posibl i wasanaethau brys

“Yn ail, yr wyf yn bryderus hefyd ynglŷn â'r problemau posibl y gallai'r traffig gormodol hwn ei gael ar y Gwasanaeth Tân sydd wedi'i leoli ar Colchester Avenue, yn ogystal â cherbydau brys eraill sy'n defnyddio Colchester Avenue yn rheolaidd”

“Beth fydd yr effaith ar y llwybr golau glas ar hyd Colchester Avenue?”

“Gorlwytho Colchester Avenue, sy'n creu problemau mynediad i'r Gwasanaethau Tân, a leolir ar Colchester Avenue, ynghyd â cherbydau gwasanaethau brys eraill sy'n defnyddio Colchester Ave.”

Fel sy'n arfer safonol gyda phob cynllun Projectau Trafnidiaeth, ymgynghorir â'r holl wasanaethau brys fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol; ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y gwasanaethau brys i'r cynigion hyn.

Ymatebodd Heddlu De Cymru i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

“Er y bydd hyn yn effeithio ar ein hamseroedd ymateb brys, bydd hyn yn fach iawn. Dim gwrthwynebiad”

Bydd hyn yn gorfodi cerbydau i gymryd y ffordd fer ar hyd lonydd cefn gan achosi materion diogelwch ychwanegol

“Mae mwy o ddefnydd o lonydd cefn yn gyffredinol yn peri pryder mawr oherwydd nifer y plant sy'n chwarae yno ar feiciau, esgidiau sglefrio ayb. yn ogystal â cherddwyr cŵn.”

“Mae'n debygol y bydd cerbydau sy'n dymuno cael mynediad i Colchester Avenue a Pen-y-lan Hill yn defnyddio'r lôn wrth ymyl rhif 2 a rhif 30. Gan nad yw hon yn briffordd a bod yr allanfa i Colchester Avenue â gwelededd cyfyng o ran y traffig sy'n dod atoch, yn amlwg nid yw hwn yn llwybr diogel.”

“Byddai'r eiddo sy'n wynebu Pen-y-lan Hill yn defnyddio'r lôn ar gyfer mynediad i gefn eu heiddo. Mae nifer fawr o dai yn y rhan hon o Winchester Avenue a Dorchester Avenue. Byddai nifer ceir trigolion a gaiff eu hailgyfeirio yn sylweddol. Byddai mwy o draffig sy'n dod allan o'r lôn i'r gyffordd goleuadau traffig neu'n troi o Colchester Avenue i'r lôn, yn enwedig ar adegau prysur, yn achosi oedi ac yn beryglus i'r llif traffig ar Colchester Avenue a diogelwch cerddwyr. Byddai'n rhaid i gerbydau sy'n cwrdd â'i gilydd ar y lôn gul facio'n ôl.”

“Bydd cau'r ddwy stryd hon yn arwain at ddefnydd cynyddol o'r lonydd rhwng Colchester Avenue a Winchester Avenue gan yrwyrr a fydd yn eu defnyddio fel llwybrau byr. Maent yn gul a heb olau, a bydd unrhyw gynnydd mewn traffig ar eu hyd yn berygl i gerddwyr, plant yn chwarae a thrigolion sy'n mynd i'w garejis yn y lôn gefn. Bydd y cynnydd mewn cerbydau yn cyrraedd a gadael y lonydd ar Colchester Avenue yn berygl ychwanegol.”

Mae Gorchymyn Traffig "ac eithrio ar gyfer mynediad" presennol yn ei le i'r lonydd y tu cefn i Colchester Avenue. Er y gwerthfawrogir efallai nad oes gan yr Heddlu'r adnoddau i orfodi'r Gorchymyn Traffig hwn, yn y pen draw mae cerbydau sy'n gyrru ar hyd y llwybr hwn yn cyflawni trosedd a gall yr Heddlu orfodi hyn. Mae'r lonydd yn gul ac mae'n annhebygol y byddai cerbydau sy'n gyrru ar hyd y llwybr hwn yn gyrru ar gyflymder uchel.

Melrose Avenue yw'r brif ffordd fer drwy'r ardal, felly pam fod y cynnig hwn yn cael ei ystyried ar gyfer dwy ran fechan o strydoedd preswyl?

“Yn ogystal, bydd yn gwneud i fwy o geir ddefnyddio Melrose Avenue fel ffordd drwodd, felly yn lle gwasgaru'r baich traffig o amgylch ardal eang, bydd yn ei ganolbwyntio i dagfeydd llai, gan waethygu tagfeydd traffig a llygredd.”

“Rydym ni sy'n byw ar Melrose Avenue yn teimlo wedi ein dadrithio braidd eich bod wedi methu ag ymgynghori â thrigolion Melrose Avenue ar effeithiau'r cynllun hwn. Yr ydym wedi trafod hyn gyda chyd drigolion, ac yn teimlo nad yw'r goblygiadau o ran traffig i Dorchester Avenue a Winchester Avenue gymaint o bell ffordd â maint y traffig ar Melrose neu Colchester Avenue.”

“Yn ail, byddem yn cwestiynu pam fod Dorchester Avenue a Winchester Avenue yn peri gymaint o bryder i'r cyngor, pan fo'r defnydd o Melrose Avenue fel “ffordd fer” yn cael ei anwybyddu dro ar ôl tro? Byddem yn croesawu gweld yr ystadegau sy'n cefnogi'r syniad bod Dorchester Avenue a Winchester Avenue yn profi mwy o broblemau na Melrose Avenue. Heb yr ystadegau hyn ni allwn ond cwestiynu pam fod yr 'Aelodau Ward Lleol i Ben-y-lan' â chymaint o ddiddordeb mewn rhoi bolardiau wrth fynediad i'r 2 rodfa hon, ac a oes diddordeb personol yn y projectau hyn?”

“Os gosodir y cynsail hwn, yna bydd gan drigolion Melrose Avenue a Kimberley Road achos cyfartal - os nad mwy - ar gyfer gofyn am folardiau o'r fath. Ai eich bwriad yw troi Pen-y-lan yn ddrysfa gyflawn o strydoedd pengaead, gyda'r holl draffig yn cael ei ddargyfeirio ar ei 'brif ffyrdd’?”

Mae Melrose Avenue yn ffordd breswyl sy'n rhedeg rhwng Pen-y-lan Road a Waterloo Road a dyma'r ffordd gyntaf i'r de o Colchester Avenue y gall cerbydau ei defnyddio i osgoi'r goleuadau traffig ar Colchester Avenue / Pen-y-lan Road. Fodd bynnag mae eisoes system gostegu traffig ar ffurf twmpathau cyflymder ar hyd y ffordd hon, a osodwyd yno i leihau cyflymder traffig ar hyd y ffordd.

Bydd yn cael effaith andwyol ar brisiau tai

“Yn y tymor hir mae'r cynigion yn debygol o effeithio ar brisiau eiddo yn Colchester Avenue, ond bydd y broblem fwyaf dybryd o ran y cynnydd posibl mewn damweiniau.”

“Byddai hyn yn dod â marchnadwyedd gwerthu tŷ i lawr.”

“Bydd yn effeithio ar brisiau tai - tra bydd Dorchester a Winchester yn cynyddu'n sylweddol, bydd hynny ar draul prisiau llawer is yn Colchester a Melrose.”

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol na chadarnhaol ar brisiau tai; fodd bynnag, mae rhyddid i breswylwyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol unrhyw bryd ar y mater hwn.

Bydd Ysgol Gynradd Howardian yn cael effaith sylweddol ar y traffig drwy gyffordd Colchester Avenue / Pen-y-lan Road

“Gydag agor ysgol Howardian, sut fydd y cynigion hyn yn effeithio ar Colchester Avenue, yn enwedig os yw'r cynigion hyn yn mynd yn eu blaen?”

“Nid yw hynny'n ystyried effaith ysgol newydd 2 ddsbarth mynediad sy'n tyfu, gyda'r potensial o gael capasiti llawn o 300 i 400 o ddisgyblion yn Howardian, ar y maint o draffig sydd eisoes yn drwm ar Colchester Ave.”

“Bydd effaith debygol y cynnig hwn ar Colchester Avenue yn negyddol; ar ben hynny, ni ystyriwyd y traffig pellach i'r ysgol Howardian arfaethedig. Mae Colchester Avenue yn stryd breswyl ac mae hyn yn debygol o achosi pwysau ychwanegol ar Stryd sydd eisoes yn brysur.”

“Diffyg ystyriaeth gynllunio i effaith yr ysgol gynradd Howardian newydd a'r cynnydd mewn effaith a gaiff ar Colchester Avenue – bydd yn cael ei waethygu.”

Byddai materion yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Howardian wedi cael eu hystyried ar wahân i'r broses hon, a byddai ymchwiliad ac adroddiad arnynt wedi eu gwneud yn ystod cyfnod cynllunio'r ysgol.

Cyffordd Waterloo Road a Colchester Avenue a ddylai fod yn flaenoriaeth yn hytrach na'r cynnig hwn

“Nododd trigolion ar Colchester Avenue y bu damweiniau traffig ffyrdd ar gyffordd Colchester Road a Waterloo Road.”

“Bu cryn nifer o ddigwyddiadau ar gyffordd Pen-y-lan Hill a Colchester Avenue yn yr amser yr wyf wedi byw ar Colchester Avenue (y mwyaf cofiadwy oedd beiciwr a gafodd ei daro oddi ar ei feic gan gar yn troi i mewn i Colchester Ave) a hefyd bu nifer o ddigwyddiadau ar gyffordd Colchester Ave a Waterloo Rd, gan gynnwys un yn yr ychydig wythnosau diwethaf. Bydd y ddwy gyffordd hyn yn dod yn brysurach fyth o dan y cynigion presennol.”

Nid yw'r gyffordd hon yn ffurfio rhan o'r cais hwn, ac felly dylid codi materion ynglŷn â hyn ar wahân i'r cynllun arfaethedig hwn.

Cyflwyno llinellau melyn dwbl ychwanegol nad ydynt yn ffurfio rhan o'r cynllun arfaethedig hwn

“Fel un o drigolion Dorchester Ave yr wyf yn diolch i chi am y wybodaeth. Rhywbeth arall a fyddai'n gwella diogelwch ar y ffyrdd yw cyflwyno llinellau melyn dwbl ar gyffordd Dorchester Ave a Southcourt Rd, Earls court Rd a Baronscourt Rd. Mae gyrrwyr yn parcio'n rhy agos at y cyffordd gan ei gwneud bron yn amhosibl cael mynediad diogel at Dorchester Ave.”

Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoleiddio Traffig ychwanegol yn uniongyrchol at y tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig am ymchwiliad, mae'r manylion cyswllt fel a ganlyn:

E-bost: GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk

Post: Tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Mae'r sylwadau isod a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori o blaid y cynllun arfaethedig

“Os bydd hyn yn atal pobl rhag torri drwodd a gyrru'n gyflym i lawr Waterloo Rd, yna bydd yn newid gwych”

“Gan gyfeirio at eich gohebiaeth ddiweddar at drigolion Dorchester Avenue a Winchester Avenue, yr wyf yn cefnogi'r project diogelwch ffyrdd arfaethedig. Rwyf yn gweithio o gartref ac yn gweld a chlywed pobl yn defnyddio ein stryd ni fel "ffordd fer" yn rheolaidd, yn fwyaf cyffredin yn ystod oriau brig ac yn aml ar gyflymder peryglus”

“Fel trigolion Winchester Avenue rydym yn croesawu'n fawr y cynigion gan fod nifer y cerbydau cyflym sy'n defnyddio'r systemau ffyrdd fel “ffordd fer” wedi cynyddu dros amser, ac mae'n anochel y bydd yn arwain at ddamweiniau traffig ar y ffyrdd.”

“Rwyf wedi dod yn fwyfwy pryderus ynghylch maint a chyflymder y traffig sy'n defnyddio Dorchester Avenue i osgoi'r signalau traffig ar gyffordd Colchester Avenue a Pen-y-lan Road, yn groes i'r cyfyngiad 'Mynediad yn Unig'.”


“Fel trigolion Dorchester Ave buom yn bryderus ers peth amser ynglŷn â'r nifer fawr o gerbydau dibreswyl sy'n defnyddio ein ffordd ni a ffyrdd cyfagos fel dull o dorri drwodd i Colchester Ave a Pen-y-lan Hill, gan gyflawni trosedd draffig. Cynyddodd cyflymder yn ogystal â maint y traffig yn yr ardal breswyl yn raddol. Mae hyn yn destun pryder mawr, gan fod llawer o drigolion oedranus a phlant ysgol yn ei chael yn fwyfwy anodd croesi'r ffyrdd yn ddiogel.”

“Os gweithredir hyn, bydd yn arwain at dipyn o anhwylostod i'n haelwyd ni, ond rydym o'r farn y bydd y budd i'n diogelwch personol ac amwynder preswyl yn llawer mwy nag unrhyw fân anghyfleustra.”

“Rwyf o blaid y cynigion gan ei bod yn wyrth na chafwyd damwain ar Dorchester Avenue oherwydd cyflymder gormodol ceir yn defnyddio llwybr byr trwy Dorchester Avenue, ac yn mynd yn ymosodol os yw preswylwyr yn ceisio parcio tu allan i'w tai eu hunain.”

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnis rheoli traffig, NID YW'R Cyngor bellach yn cynnig gweithredu'r cynllun a welir. (Efallai y caiff cynigion diwygiedig eu cyflwyno cyn hir.)

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is NO LONGER proposing to implement the scheme shown. (Revised proposals may be presented in due course.)